
# Adolygiad cryno 'Cwricwlwm y Bont' - 2025

Mae cwricwlwm Canolfan Addysg Y Bont wedi eu seilio ar dri llwybr dysgu ar hyn o bryd; Cyn-anffurfiol, Anffurfiol a Lled-ffurfiol. Mae disgyblion yn dilyn llwybr dysgu sy'n seiliedig ar eu hanghenion dysgu unigol. Mae pob llwybr yn wahanol, gan ganiatáu i ddisgyblion wneud cynnydd a datblygu ar eu cyflymder unigol eu hunain. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen hyblygrwydd, gan ganiatáu felly i ddisgyblion symud rhwng y llwybrau, pan fo'n briodol.







Mae disgyblion ag anghenion Dwys a Lluosog a chymhleth yn dilyn y Llwybrau Cyn-anffurfiol a/neu Anffurfiol. Mae'n disgyblion yn CAYB yn derbyn profiadau sensori sy'n datblygu eu hymgysylltiad ac yn sicrhau pob cyfle i gyrraedd lefel uchaf o annibyniaeth. Mae tua 65% o ddisgyblion yr ysgol yn dilyn y llwybrau yma ac mae bron pob un yn gwneud cynnydd da neu gwell, sydd wedi'i dystiolaethu.

Mae'n cwricwlwm Lled-Ffurfiol wedi cael ei gynllunio ar gyfer ein disgyblion ag anawsterau dysgu dwys. Rhoddir profiadau a chyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau, cyfathrebu, llesiant emosiynol ac annibyniaeth. Rydym yn teimlo bod disgyblion yn dysgu orau pan fydd dysgu yn deillio o'u profiadau perthnasol, unigol. Mae tua 35% o ddisgyblion yr ysgol yn dilyn y llwybr yma ac mae bron pob un yn gwneud cynnydd da neu gwell.





Noder: Nid ydym yn darparu llwybr cwricwlwm Ffurfiol bellach, ble mae mynediad i gwricwlwm mwy strwythuredig ac academaidd eu naws. Roedd disgyblion ar y llwybr hwn yn dechrau dangos cynnydd o fewn Camau Cynnydd Meysydd Dysgu a Phrofiad y Cwricwlwm newydd i Gymru. Roedd defnydd o fframweithiau statudol fel y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol yn cael eu hatgyfnerthu trwy weithgareddau ymarferol a phrofiadau bywyd go iawn. Ychydig iawn o ddisgyblion oedd yn dilyn y llwybr ffurfiol yn 2024, gan ddangos cynnydd da iawn o fewn y cohort. Nid oedd unrhyw ddisgybl yn dilyn y Llwybr Dysgu Ffurfiol yn 2025.

Am fwy o wybodaeth am Cwricwlwm Y Bont, cliciwch ar y linc: www.canolfanaddysgybont.cymru , ac yna 'Cwricwlwm'.